

# 13. Creu Tudalennau â Thabiau neu Acordion

Defnyddir tudalennau â thabiau a thudalennau acordion i ganiatáu i ddarnau amryfal o wybodaeth fod ar gael ar yr un dudalen. Maent yn caniatáu i'r defnyddiwr gyfnewid rhwng y tabiau (neu acordionau) heb symud oddi ar y brif dudalen.

**Tabiau**:




Acordionau:




# Creu Tudalen â thabiau neu dudalen Acordion

## Creu Adran

1. Crëwch adran newydd i fod yn dudalen â thabiau neu acordion. Rhowch enw i’r dudalen ac URI Allbwn priodol fel arfer.

## Ychwanegwch Deitl a Thestun Cyflwyniadol

2. Agorwch eich adran newydd a chliciwch ar y tab **Content**.
3. Cliciwch ar y botwm **Add content** a dewiswch y templed cynnwys o’r enw “General Content”.
4. Bydd y golygydd **General Content** yn agor:




5. Rhowch enw ar gyfer eich cynnwys newydd yn y blwch **Name**. Nid yw’r bobl sy’n defnyddio’r wefan yn gweld hwn, ond mae’n bwysig eich bod yn dewis rhywbeth a fydd yn gwneud synnwyr i ddefnyddwyr eraill CMS.
6. Rhowch deitl y dudalen yn y blwch “Title”.
7. Rhowch y testun cyflwyniadol yn blwch “Body”. Bydd y testun hwn yn aros ar y dudalen trwy’r amser ni waeth pa dab y mae’r defnyddiwr yn edrych arno oddi tano.

8. Pan fyddwch wedi gorffen ychwanegu cynnwys cliciwch ar y botwm **Save changes**.

9. Byddwch yn mynd yn ôl i'r tab **Content**, lle byddwch yn gweld eich cynnwys newydd wedi'i restru.

## Creu'r Tabiau neu'r Acordionau

10. Nawr bydd angen i chi ychwanegu'r tabiau/acordionau yr hoffech iddynt ymddangos ar y dudalen. Nes y byddwch yn gwneud hyn, bydd eich tudalen yn edrych fel tudalen destun arferol


11. Cliciwch ar y botwm **Create content** a dewiswch y templed cynnwys o'r enw "General Content" eto.

12. Rhowch enw ar gyfer eich cynnwys newydd yn y blwch **Name**. Nid yw'r bobl sy'n defnyddio'r wefan yn gweld hwn, ond mae'n bwysig eich bod yn dewis rhywbeth a fydd yn gwneud synnwyr i ddefnyddwyr eraill CMS.

13. **Peidiwch â llenwi'r blwch** "**Title"**– gadewch hwn yn wag.

14. Rhowch y cynnwys ar gyfer y tab yn y blwch **Body**.

15. Sgroliwch i lawr er mwyn i chi allu gweld y gwymplen **Additional Options** a'r blwch **Tab Title** ar waelod y templed:




16. Dewiswch **'Yes'** yn y gwymplen **Additional Options**

17. Nawr dylech weld y dewisiadau ychwanegol o **'Accordion'** neu **'Tabbed'** – dewiswch yr un yr hoffech ei ddefnyddio.

18. Teipiwch deitl y tab yn y blwch **Tab Title**.

19. Os hoffech allu cysylltu'n uniongyrchol â thab neu acordion penodol ar y dudalen, gosodwch y gwymplen **Linkable** i **Yes**.

20. Pan fyddwch wedi gorffen, cliciwch ar y botwm **Save changes**.

21. Ailadroddwch y broses o bwyntiau 11 i 20 uchod nes eich bod wedi gorffen ychwanegu eich holl dabiau/acordionau. Sicrhewch bod yr holl benawdau wedi'u gosod i'r lefel cywir, yn unol â'r [Cyfarwyddyd Hygyrchedd Digidol i Staff](#).

## Gorffen

22. Edrychwch ar ragolwg o'ch adran i wneud yn siŵr bod y tabiau'n ymddangos fel yr oeddech wedi'i ddisgwyl

23. Cymeradwywch yr holl gynnwys ac arhoswch tan y cyfnod cyhoeddi nesaf



Adolygwyd: Ebrill 2023